CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 21 MEHEFIN 2011

Presennol
Ei Deilyngdod y Maer – Cyng I C Thomas

Cynghorwyr
W T Owen, H Edwards, H W Roberts, W R Owen, M Powell -Jones, A Y Williams, A W Bohana, G Parry, A Kirk, R Bonner Pritchard, M Thomas, G Thomas, W L Davies, A Roberts, G Thomas

Gweddïau

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Cyng W L Davies

Siaradwr Gwadd : Sioned Morgan Swyddog ECHEL 4 Cynllun Datblygu Gwledig Gwynedd

Cefndir y Cynllun Datblygu Gwledig

Defnydd o asedau cymunedol, adeiladau gwag ag ati . Gwasanaethau sylfaenol yn cael eu datblygu a'u gweithredu gan ac ar gyfer y gymuned.

5 cais llwyddiannus yn unig – angen ceisiadau erbyn Mis Medi

Hwyluswyr i roi cymorth i d datblygu syniadau hyfyw a realistig

Uchafswm o £3500 ar gael i bob cymuned tuag at ystyried dichonoldeb un neu fwy o syniadau.

Rhagwelir y bydd y prosiect yn buddsoddi hyd at £100,000 ar gyfartaledd i bob cymuned. Cyfalaf a refeniw yw hwn.

Cefnogaeth i helpu efo Cynllun Busnes, ymchwil marchnadol, cynlluniau technegol/pensaernïol
Ymchwil i'r gofynion statudol

(Cyng A Kirk yn cyrraedd 6.10)

Gall y prosiect gyfrannu hyd at 80% o gyfanswm costau'r gymuned, felly disgwylir i'r cymuned gyfrannu 20%

Prif amcan y gronfa yw cynorthwyo'r cymunedau i allu weithredu'r syniad

Enghreifftiau

- Gwaith adeiladu er mwyn adnewyddu neu addasu adeilad cymunedol fel y gellir ei ddefnyddio fel gofod a rennir gan ddarparwyr gwasanaethau statudol (heddlu, meddygon)
- Gwaith adeiladu i adnewyddu neu addasu adeilad cymunedol
- Prynu cerbydau o waith isadeiledd er mwyn caniatáu gwaith ar ddatblygu cynlluniau rhannu egni
- Prynu offer a gwaith isadeiledd er mwyn galluogi datblygiad system band eang cymunedol

Oherwydd amserlen dynn rhaid i Cyngho rwyr awgrymu syniadau ar gyfer y rhaglen nesaf (angen bod mewn y amser cinio dydd Mawrth)
Rhaid disgwyl i weld pa ceisiadau s ydd yn dod i mewn cyn medru dweud be geith ei gytuno

Bydd angen cyflwyno tystiolaeth bod y gymuned yn gefnogol ac yn ymrwymo i'r prosiect, profi cyd weithrediad, a dangos lle mae gweddill yr arian yn dod o

Panel yn awyddus i gael croes doriad o gymunedau yn rhan o'r cynllun
1 cynllun yn Gymunedol ymylon
1 cynllun yn 70% yn siarad Cymraeg
1 cynllun difreintiedig
1 cynllun efo cyfartaledd dros 50 oed
1 cynllun efo cyfartaledd o dan 50 oed

Nosweithiau hyrwyddo yn cael eu cynnal yn ystod Gorffennaf – un agosach i ni 14 Gorffennaf yn Neuadd Dyffryn Ogwen 7 -9

Mis medi –"drop in sessions"
Dylai ceisiadau llwyddiannus gael ymateb erbyn diwedd Hydref a bydd bob cais yn derbyn adborth

1. Ymddiheuriadau

Dim

2. Cyhoeddiadau'r Maer

Mai	20	Lansiad CD yr Ambiwlans Awyr gyda Bryn Terfel yn Galeri
	20	Bore Coffi Ymchwil y Galon yn yr Institiwt
	22	Cinio gyda Arglwydd Faer Caer a Gwasanaeth Sul yr Arglwydd Faer yn y Gadeirlan
	27	Croesawu gwleidyddion o Savoie i'r Catell gyda Hywel Williams AS ac Alun Ffred Jones AC
	27	Noson Gwobrwyo Tim Peldoed Tref Caernarfon yn yr Oval
	28	Lansiad Caernarfon o CD Julie Bullman yn Neuadd y Farchnad

Mehefin	1	Lansiad ymgyrch Cenedlaethol Yfed a Gyrru'r Haf yr Heddlu a gwasanaethau eraill ar Y Maes
	5	Rali Hen Geir ar Gei Llechi
	8	Lansiad cynhyrchiad gan ddisgyblion Ysgol Syr Hugh Owen yn Galeri o "Lwsyr"
	9	Noson Gwobrwyo Cynghrair Dartiau Caern arfon a'r Ardal yng nglwb Mountain Rangers, Rhosgadfan
	11	Cychwyn Ras y Cestyll o Gaernarfon i Gaerdydd o risiau'r Castell
	11	Cychwyn Gwyl y Gogs am dlws coffa Bob Anderson
	12	Ymweliad a bore agored Ysgol Pendalar
	12	Sul y Maer yn Eglwys y San tes Fair
	15	Ymweliad y Fflam Olympaidd i Gaernarfon ar Y Maes
	20	Codi baner Diwrnod y Lluoedd Arfog tu allan i Bencadlys Cyngor Gwynedd

3. Datgan Buddiant Personol

I C Thomas – cynllunio eitem 4 a trwyddedu
W T Owen – Cynllunio eitem 4 a trwyddedu
W L Davies – Cynllunio eitem 4
W R Owen – Cynllunio

4. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol: -

Cyngor, 2 Mehefin 2011

Penderfynwyd

Derbyn ar ôl ychwanegu enw Cyng A Kirk yn bresennol

6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y Ceisiadau Cynllunio a Cais Trwyddedu

Penderfynwyd

Anfon rhestr o argymhellion i'r awdurdod priodol yngh yd a llythyr yn nodi siom yn y drefn gan bod sylwadau a yrrwyd ar ein rhan ddim yn dangos mewn amser ar ei gwaith papur – yr eglurhad ydi bod rhaglenni nhw yn cael e u paratoi 3 wythnos cyn eu gyrru allan

Gadawodd I C Thomas , W T Owen a W L Davies ar gyfer eitem 4 ac arhosodd I C Thomas a W T Owen alla n ar gyfer y cais trwyddedu. Roedd Cyn Faer Cyng H Edwards wedi ei ethol i'r gadair ar gyfer y 2 eitem yma

7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu

8. Cyfethol Ward Peblig

Dau gais :

Cafodd rheolau sefydlog eu dileu er mwyn cael pleidlais cudd

i. Dylan Jones

ii. Llyr ab Alwyn

Penderfynwyd

Pleidlais gyfartal felly rhaid defnyddio pleidlais bwrw Y Maer – ac yna Llyr ab Alwyn yn cael ei ethol

(gadawodd Cyng W R Owen a Cyng A Y Williams ar ôl pleidleisio)

9. Peg

Rhif 78 – Ymholiadau Chwilio am Bartner (Mai 2011)

83 - Cynhadledd Ardaloedd Gwledig Hyrwyddo'r Gymraeg

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

10. E-bost Cwmni 'Historical Promotions'

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth a ysgrife nnu yn ôl atynt i nodi camgymeriad

11. Cyngor Gwynedd

Ymgyrch codi lefelau ailgylchu yn ardal Maes Barcer

Penderfynwyd

Derbyn a dymuno pob lwc i'r cynllun

12. Sentry Security

Eglurhad gan y Clerc
Mae'r system newydd yn caniatáu camerâu ychw anegol ac felly angen ystyriaeth i gamera ychwanegol ar ben grisiau yma tu allan i'r siambr

Penderfynwyd

Derbyn Canllawiau a symud ymlaen i brynu'r camera newydd

13. Cwestiynau

Ydi'r llun o'r castell yn barod?
Clerc i holi

Gorffennodd y cyfarfo d am 7.20

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....